**Cofnod Cyfarfod Bwrdd S4C** **Cyfarfod Rhif 442**
**17 Medi, 2020 - Cyfarfod dros Zoom**

**Presennol:**
**Aelodau Anweithredol y Bwrdd:**

| | | |
|---|---|---|
| | Rhodri Williams | (Cadeirydd) |
| | Owen Derbyshire | (Aelod o'r Bwrdd) |
| | Anita George | (Aelod o'r Bwrdd) |
| | Siân Lewis | (Aelod o'r Bwrdd) eitemau 1-6 |
| **Aelodau Gweithredol:** | | |
| | Owen Evans | (Prif Weithredwr) |
| | Elin Morris | (Prif Swyddog Gweithredol) |
| | Amanda Rees | (Cyfarwyddwr Cynnwys) |
| **Hefyd yn bresennol:** | | |
| **Staff S4C:** | | |
| | Gwyn Williams | (Cyfarwyddwr Cyfathrebu) |
| | Sharon Winogorski | (Prif Swyddog Cyllid) |
| | Catrin Whitmore | (Pennaeth Adnoddau Dynol) |
| | Catrin Hughes Roberts | (Cyfarwyddwr Partneriaethau) – eitem 7 |
| | Rhidian Dafydd | (Cyfarwyddwr Prosiectau) |
| | Owain Lloyd | (Ysgrifennydd y Bwrdd) |
| | Bethan C. Williams | (Cynorthwyydd Ysgrifennydd y Bwrdd) |
| **Ymddiheuriadau:** | Hugh Hesketh Evans | (Aelod o'r Bwrdd) |

**MATERION SEFYDLOG:**

1. **Croeso a Datganiadau Diddordeb**

Croesawodd y Cadeirydd bawb i gyfarfod Bwrdd Unedol S4C. Roedd wedi derbyn ymddiheuriadau gan Hugh Hesketh Evans.

Gofynnodd y Cadeirydd i unrhyw aelodau oedd â diddordeb ym musnes y cyfarfod iddynt ddatgan eu diddordeb. Ni chafwyd unrhyw ddatganiadau. Atgoffodd pawb i ddatgan eu diddordeb a bod y wybodaeth yn gyfredol. Datganodd RhW ei ddiddordeb yn Ofcom.

*Gweler y Gofrestr Diddordebau yn adran y Bwrdd ar wefan S4C ar gyfer datganiadau cyffredinol.*

2. **Adroddiad y Cadeirydd**

Cyflwynodd RhW ei adroddiad ar lafar.

Adroddwyd fod RhW, OE ac OLl wedi cyfarfod gyda Tim Davie, Cyfarwyddwr Cyffredinol newydd y BBC, yn Sgwâr Canolog. Roedd TD yn agored ac yn barod i wrando ar unrhyw syniadau sut all S4C a'r BBC cydweithio. Ers hynny roedd OE wedi dechrau trafod gyda Rhodri Talfan Davies ac roedd sgyrsiau hefyd yn parhau ar yr ochr cynnwys.

**Adroddiad TIAA ar Lywodraethiant y Bwrdd**

Oherwydd salwch aelod o staff TIAA, nid yw'r adroddiad wedi'i chwblhau. Bydd hwn ar agenda Bwrdd mis Hydref.

**Aelodau Anweithredol newydd i'r Bwrdd**

Adroddwyd fod oedi yn y broses o hysbysebu ar gyfer aelodau anweithredol newydd. Gobeithir byddai'r hysbyseb allan cyn diwedd Medi. Gofynnodd AG i weld y 'role specification'.

**Ysgrifennydd Gwladol**

Roedd cais wedi mynd i'r Cadeirydd gyfarfod ag Ysgrifennydd Gwladol Cymru er mwyn eu diweddaru. Roedd hefyd bosibiliad y byddai John Whittingdale o'r DCMS yn ymweld â S4C mis nesaf.

3. **Adroddiad y Prif Weithredwr**

Cyflwynodd OE ei adroddiad misol gan gynnwys y materion isod.

**Covid-19**

Roedd y gwaith cynllunio o gwmpas Covid-19 yn parhau ar sawl lefel. Roedd y gwasanaeth yn parhau gan gynnwys ymateb i newidiadau yng nghanllawiau'r Llywodraeth. Roedd cyhoeddiad gan DCMS ar yswiriant wedi digwydd. Roedd swyddogion hefyd yn parhau i fynychu cyfarfodydd rheolaidd gyda thîm Cymru Greadigol i geisio cydlynu ein hymatebion â'r Llywodraeth yng Nghymru i Covid-19.

O ran comisiynu, roedd y tîm wedi bod wrthi'n trafod cyflenwad ac oriau'r BBC. Roedd S4C wedi llwyddo cytuno ar setliad oriau am weddill y flwyddyn.

Roedd gwaith paratoi yn digwydd i ail-agor y swyddfeydd. Roedd cyfnod Covid-19 wedi rhoi cyfle i S4C ddysgu sut i wella'r polisi gweithio'n hyblyg.

Yn olaf, roedd Covid-19 a chydleoli wedi peri anhawster i staff allu cymryd eu gwyliau, ac o'r herwydd, roedd posibiliad o orfod cario gormod o wyliau drosodd i'r flwyddyn nesaf. Roedd cynnig felly i staff brynu hyd at 5 diwrnod nôl.

**Cydleoli**

Roedd proses mewn lle i sicrhau fod gwaith wedi'i gwblhau cyn cytuno symud mewn i Sgwâr Canolog. Ar hyn o bryd, symud ym mis Tachwedd oedd y nod ond roedd nifer o heriau yn parhau. Yn sgil yr adroddiad, penderfynwyd gofyn i'r BBC ddod yn ôl i'r Pwyllgor Archwilio ym mis Hydref.

**Swydd Amrywiaeth**

Nodwyd fod yr hysbyseb ar gyfer Swyddog Amrywiaeth a Chynhwysiant allan. Byddai'r swyddog yn gwella ac yn adeiladu cysylltiadau â chymunedau ac unigolion sy'n cael eu tangynrychioli ar y sgrin ac o fewn y sector (pobl o gefndiroedd BAME, anabl ac LGBTQ+.)

**Archif Deledu**

Adroddwyd nad yw'r Llyfrgell Genedlaethol bellach yn bwriadu creu adeilad ar gyfer eu harchif deledu newydd a'u bod yn symud tuag at fodel mwy digidol. Roeddent wedi rhoi cais newydd i'r HLF ac yn aros i glywed. Roedd angen darganfod sut y bydd modd gwneud archif S4C yn rhan o'r casgliad digidol. Byddai swyddogion yn parhau'r drafodaeth gyda nhw.

**Amcanion Gweithredol 2020/21**

Cyflwynwyd Amcanion Gweithredol S4C 2020/21 i'r Bwrdd. Teimlir fod yr amcanion yma ar wahân i'r gwaith strategol, gan ddangos beth sydd angen ei wneud eleni, a rhywfaint o'r gwaith i'r dyfodol.

Nid oedd OD yn teimlo bod unrhyw beth dadleuol yn y ddogfen. Gofynnodd am ddiweddariad o ran gweithio'n hyblyg ac edrych ar ein hadeiladau mewn ffordd fwy strategol.

Nododd OE fod swyddfa Caernarfon yn gyfyng. Mewn perthynas â Pharc Tŷ Glas, rhoddodd EM amlinelliad o'r gwaith sydd angen gan nodi fod hwn yn brosiect eithaf mawr. Bydd angen dod i benderfyniad o ran cynlluniau'r bloc technegol ar ôl cydleoli i Sgwâr Canolog.

Yn yr Egin, nodwyd fod bwriad i ail bwrpasu'r gofod i greu adnodd at bwrpas yn hytrach na swyddfeydd gyda desgiau i bawb. Roedd angen creu rheswm i bobl fod yn yr Egin i gyfarfod a phobl eraill, ac felly creu mwy o ofod i'r pwrpas hwnnw.

Roedd angen bod yn gyson ar draws y sefydliad o ran polisi gweithio'n hyblyg, gan geisio agor y swyddfeydd i bawb. Mae'n debyg mai model hybrid roedd y staff yn ei ffafrio, gyda'r opsiwn o weithio o adref os dymunir. Eglurodd CW fod llawer o gyrff gyda pholisïau gweithio'n hyblyg gan gynnwys S4C. Byddai angen edrych hefyd ar bethau ymarferol megis cytundebau ac ati. Credir bod rhaid ymddiried yn y staff a rheolwyr. Roedd y cyfnod clo wedi dangos bod modd gweithio mewn ffordd wahanol heb fod lefel perfformiad yn disgyn.

Roedd SL yn poeni bod yna duedd i bobl gorweithio o adref a'r effaith ar iechyd meddwl y staff o beidio cwrdd ag eraill. Roedd staff angen y teimlad o ryngweithio a gweithio mewn lleoliad gwahanol i'r cartref. Roedd yn poeni bod gweithio o adref yn mynd i fod yn anghynaladwy. Nododd OE fod cynlluniau ar y gweill i geisio atal gorweithio, ac roedd cyrsiau iechyd meddwl wedi bod yn ystod y cyfnod. Y cam nesa oedd hyfforddiant rheoli staff ar gyfer rheolwyr. Dywedodd CW fod pobl yn dechrau cymryd mwy o wyliau.

Holodd AG os oedd cynlluniau i ddod â'r staff yn ôl i mewn, naill ai'n anffurfiol neu trwy gynlluniau ffurfiol wedi'u hamserlennu. Roedd diwylliant corfforaethol yn bwysig. Esboniodd EM fod gwaith yn digwydd i edrych ar amserlen a siâp yr wythnos yn Yr Egin. Byddai i fyny i'r rheolwyr unigol benderfynu pryd dylai timoedd dod i mewn. Roedd gwaith ar y gweill i gynllunio gofynion stafelloedd cyfarfod ac ati. Roedd OE o'r farn fod angen cytundeb o ran amserlen i'r timoedd unigol, ond hefyd angen ystyried pryd fydd timoedd angen cyfarfod gydag adrannau eraill. Rhaid sicrhau fod busnes yn dod yn gyntaf.

Holwyd am y posibilrwydd o gael rhyddhad treth i gwmnïau. Nodwyd ar hyn o bryd taw dim ond Drama oedd yn gymwys a bod y trothwy yn uchel o ran gwariant. Roedd S4C wedi bod yn trafod ceisio rhyddhad treth i gwmnïau sy'n

gwneud rhaglenni mewn ieithoedd lleiafrifol ac yn meddwl gweithio gyda Alba er mwyn adeiladu cais i fynd i'r Trysorlys.

4. **Diweddariad ar y broses o negydu'r Setliad Ffi'r Drwydded**

Cyflwynwyd adroddiad a diweddariad gan OLl.

**[Crynodeb:** Yn sgil trafodaethau gyda swyddogion y DCMS dros yr haf, roedd OLl wedi diweddaru'r papur anffurfiol ar bryderon/gobeithion rhagarweiniol S4C. Adroddwyd fod cyfarfod bob pythefnos yn digwydd rhwng OE, OLl a swyddogion DCMS. Ar hyn o bryd roedd y DCMS yn penderfynu ar y broses ac yn meddwl am ba wybodaeth byddai angen erbyn mis Chwefror 2021.

Nododd RhW ei bod yn ymddangos fod trafodaethau cystal ag y gallan nhw fod. Nodwyd fod Pwyllgor Diwylliant Iaith Gymraeg a Chyfathrebu'r Senedd yn parhau i'w hymchwiliad nhw i ddatganoli darlledu.]

5. **Pwyllgor Cwynion**

**[Crynodeb:** Cyflwynodd SL adroddiad o'r Pwyllgor Cwynion a gynhaliwyd ar 3 Medi 2020. Roedd y Pwyllgor wedi ystyried cwyn o ran rhaglen Oedfa'r Bore. Roedd y gynulleidfa yn siomedig fod y rhaglen wedi dod i ben.]

6. **Pwyllgor Cynnwys.**

Cyflwynodd OD adroddiad llafar o'r Pwyllgor Cynnwys a gynhaliwyd ar 16 Medi.

**[Crynodeb:** Derbyniwyd diweddariad ar y sector, yn ogystal â diweddariad gan Sue Butler ar y sefyllfa gyda Chwaraeon. Amlinellodd SB yr heriau gyda'r Pro14 ac ati gyda dim arwydd clir o bryd mae'r gemau yn mynd i ddigwydd na'r costau chwaith. Roedd y newyddion am y cytundeb gyda Amazon o ran gemau rygbi'r hydref yn ffantastig.

Trafodwyd y gyllideb cynnwys.

Cafwyd diweddariad gan Geraint Evans am Newyddion Digidol gan gynnwys hysbysebu ar gyfer y tîm newydd a thrafodaethau gyda'r BBC am staffio.

Cafwyd cyflwyniad gyda ffocws arbennig ar oedran ein cynulleidfa. Bydd EJ yn cyflwyno i'r Cwrdd i Ffwrdd ar 1 Hydref. O ran perfformiad y misoedd diwethaf, roedd sgerbwd yr amserlen yn iawn wrth ystyried yr heriau ond roedd diffyg Chwaraeon wedi effeithio ar y ffigyrau cyrhaeddiad.]

7. **Strategaeth Hyfforddiant 2020-22**

**[Crynodeb:** Cyflwynodd CHR Strategaeth Hyfforddiant 2020-22. Nod y strategaeth oedd cefnogi datblygiad gweithlu'r dyfodol. Roedd cynllun uchelgeisiol i gefnogi datblygiad ffeithiol (Cynllun Carlam Ffeithiol) yn cael ei redeg eleni.

Roedd yna gonsensws clir bod lle i gefnogi prentisiaethau o fewn y sector, ac roedd y cwmnïau a TAC bellach yn agored i awgrym S4C o sefydlu cynllun lle byddai prentisiaid yn symud o gwmpas cwmnïau. Yn ogystal â'r hyfforddiant amrywiaeth yr oedd TAC yn ei drefnu, roedd nifer o gyrsiau eraill, gan gynnwys un cynhyrchu comedi gydag Elis James, yn cael eu cynnal.

Croesawyd y strategaeth ac roedd RhW yn falch fod yr adroddiad yn cyfeirio at iechyd meddwl yn y sector. Roedd hefyd yn awyddus i helpu ac annog pobl i geisio am swyddi ar fyrddau.

Nododd OD bod llawer o waith yn digwydd yn y maes. Yr her oedd sicrhau cenhedlaeth newydd o dalent ar y sgrin a thu ôl i gamera.]

8. **Adolygiad Datganiad Polisi Rhaglenni 2019/20 a Datganiad Polisi Rhaglenni 2020-21**

**[Crynodeb:** Cyflwynwyd yr adroddiad ar gyfer Ofcom oedd yn rheidrwydd statudol. O ran y prif benawdau nodwyd fod Covid-19 yn her amlwg ac yn pontio'r ddwy flynedd.

Dywedodd OD fod yr adroddiadau yn darllen yn dda a bod llawer o drafod wedi bod o ran cynlluniau 2020/21.

O ran Datganiad Polisi Rhaglenni ar gyfer eleni, roedd AR am geisio ffeindio'r man canol rhwng peidio clymu'n hunain yn ormodol ond eto rhoi syniad o'r cynnwys sydd i ddod. Roedd yn arbennig o anodd oherwydd Covid-19. Roedd RhW o'r farn bod y datganiad yn gynhwysfawr a ddim yn ein clymu'n ormodol.]

9. **Adroddiad Blynyddol**

**[Crynodeb:** Rhoddwyd diweddariad i'r Bwrdd ar gynnydd gyda'r Adroddiad Blynyddol. Nid oedd unrhyw beth o sylwedd wedi newid ers i'r Aelodau dderbyn y fersiwn drafft diwethaf. Adroddwyd hefyd fod DCMS wedi cadarnhau eu bod yn hapus. Gobeithir cyhoeddi ddydd Iau nesaf.

Nododd GW y byddai datganiad i'r wasg gyda phrif sylwadau OE, a byddai'r Adroddiad yn cael eu rhannu dan embargo gyda'r cyfryngau. Gan fod dau Gadeirydd wedi bod mewn lle yn ystod y flwyddyn teimlwyd y byddai'n well i OE wneud unrhyw gyfweliadau.]

Cymeradwywyd yr Adroddiad Blynyddol a'r Datganiad Ariannol ar gyfer 2019/20 gan yr Aelodau oedd yn bresennol. Yn ogystal, cymeradwywyd 'Audit Completion Report' yr NAO.

10. **Cofnodion Cyfarfod 16 Gorffennaf 2020.**

Cyflwynwyd cofnodion o gyfarfod rhif 441 gynhaliwyd ar yr 16eg o Orffennaf. Cymeradwywyd y cofnodion fel rhai cywir gan y Bwrdd.

11. **Pwyntiau Gweithredu**

**Pwynt 16** – Cytundeb golygyddol gyda'r BBC. Nodwyd fod cyfarfod chwarterol gyda'r BBC wedi'i gynnal yr wythnos diwethaf, ac mae darpariaeth ddigidol a telerau masnach newydd wedi'u cytuno.

**Pwynt 12** – Cytunwyd rhannu copi o adroddiad Tracio Delwedd Beaufort.

12. **Dyddiadau cyfarfodydd y Bwrdd ar gyfer 2021**

**[Crynodeb:** Cafwyd trafodaeth am aelodaeth y Pwyllgorau. Nodwyd bod AG yn hapus i ymuno â'r Pwyllgor Cwynion.

Trafodwyd yr awgrym i geisio lleihau nifer o gyfarfodydd ffurfiol yn ystod y flwyddyn.]

13. **Materion yn Codi**

Ni thrafodwyd unrhyw faterion oedd yn codi o'r cofnodion.

14. **Cofrestr Pwyntiau Gweithredu a Phenderfyniadau**

Nodwyd y gofrestr.

15. **Unrhyw Fater Arall**

Adroddwyd fod Morgan Lloyd wedi bod yn gweithio gyda staff S4C ar bwrpas S4C, a nodwyd fod 73 o ymatebion wedi'u derbyn. Y bwriad oedd cyflwyno'r allbwn i'r Cwrdd i Ffwrdd ar 1 Hydref fel man cychwyn i'r drafodaeth.